**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

14 Mehefin 2022

Annwyl Eluned

Fframweithiau cyffredin dros dro

Diolch am eich llythyr ar 9 Mai 2022 ynghylch y fframweithiau cyffredin dros dro ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Ysgrifennaf i ofyn am ragor o sylw i ddarparu ymateb o sylwedd gan Lywodraeth Cymru i'r argymhellion a nodwyd yn fy llythyr ar 21 Mawrth 2022 nad ydynt yn ymwneud â materion sy'n destun negodiadau rhynglywodraethol parhaus a gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill yn y DU (gweler yr atodiad).

Mae eich llythyr ar 9 Mai 2022 yn nodi ei fod yn ateb dros dro, ar y sail "hyd nes bod pob deddfwrfa yn y DU wedi cael cyfle i gwblhau proses graffu, ni fydd modd [i Lywodraeth Cymru] fynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn ffurfiol".

Trafodwyd eich llythyr yn ein cyfarfod ar 19 Mai 2022. Rydym yn derbyn bod rhai o'n hargymhellion yn ymwneud â materion sy'n destun negodiadau rhynglywodraethol parhaus a gwaith craffu arnynt gan ddeddfwrfeydd eraill y DU. Rydym yn cytuno ei bod yn rhesymol i Lywodraeth Cymru anfon ateb dros dro mewn perthynas â'r argymhellion hyn.

Fodd bynnag, mae nifer o'n hargymhellion yn ymwneud â materion sy'n benodol i Gymru ac i Lywodraeth Cymru. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi y dylai fod yn angenrheidiol i ni aros am ymateb o sylwedd i'r argymhellion hyn, yn enwedig gan fod ansicrwydd parhaus ynghylch pryd y bydd Cynulliad Gogledd Iwerddon mewn sefyllfa i gwblhau ei waith craffu ar y fframweithiau hyn.

Yn yr atodiad i'r llythyr hwn, rydym wedi nodi pa argymhellion sy'n perthyn i ba gategori yn ein barn ni.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb erbyn 29 Gorffennaf 2022.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

copi at: Tracey Cooper, Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Senedd Cymru
Y Farwnes Andrews, Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi
Lesley Hogg, Clerc a Phrif Weithredwr, Cynulliad Gogledd Iwerddon
Gillian Martin ASA, Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban
William Wragg AS, Cadeirydd, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad: Y fframweithiau cyffredin dros dro ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd; Diogelwch ac Ansawdd Gwaed; ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)

## Cais am ymatebion o sylwedd

**1.** Gofynnwn am ymateb o sylwedd i'r argymhellion a ganlyn. Ar gyfer pob un, rydym wedi amlinellu pam nad yw ymateb, yn ein barn ni, yn dibynnu ar gwblhau negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU.

| Argymhelliad | Nodiadau |
|---|---|
| Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn nodi ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Dylai Llywodraeth Cymru wneud hyn yn barhaus, gan gynnwys sut y caiff gwybodaeth am risgiau o'r fath ei rhannu â phwyllgorau'r Senedd. | Nid yw dull Llywodraeth Cymru o nodi a rheoli risgiau a rhannu gwybodaeth â phwyllgorau'r Senedd yn destun gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU. |
| Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd yn hysbysu pwyllgorau'r Senedd cyn adolygu'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau). Dylai Llywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod pwyllgorau'n cael cyfle i graffu ar unrhyw newidiadau arfaethedig. Dylai'r hysbysiadau gynnwys gwybodaeth am y dull arfaethedig o ymgynghori â rhanddeiliaid. | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag ymrwymiad unochrog gan Lywodraeth Cymru i hysbysu pwyllgorau'r Senedd – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. |
| Argymhelliad 8: Er mwyn sicrhau cymesuredd, pan fydd anghydfodau'n codi o dan y fframweithiau cyffredin, dim ond os cânt eu trosglwyddo i lefel Weinidogol y mae angen i Lywodraeth Cymru hysbysu pwyllgorau'r Senedd amdanynt. | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag ymrwymiad unochrog gan Lywodraeth Cymru i hysbysu pwyllgorau'r Senedd – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. |

| Argymhelliad | Nodiadau |
|---|---|
| Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch a ddylid pennu unrhyw derfynau amser ar gyfer y broses datrys anghydfodau. | Rydym yn nodi bod y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant eisoes wedi nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar yr egwyddor hon yn ei llythyr atom ar 21 Ebrill 2022 mewn perthynas â'r fframwaith cyffredin dros dro ar Safonau Cyfansoddiadol Bwyd a Labelu. |
| Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gadarnhau a oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch y goblygiadau posibl o ran adnoddau neu gapasiti sy'n gysylltiedig â rhaglenni gwaith Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU neu'r Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd. Dylai hyn gynnwys nodi canlyniad yr asesiad o adnoddau y cyfeiriodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ato yn ei llythyr ar 17 Ionawr 2022, ac, os yw'r adnoddau ar gyfer y rhaglen waith yn cael eu talu o gyllidebau presennol, fanylion sy'n dangos o ble y trosglwyddwyd yr adnoddau ariannu a'r adnoddau staff a ddyrannwyd i'r rhaglen waith. | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â phryderon sydd gan Lywodraeth Cymru neu Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â goblygiadau o ran adnoddau neu gapasiti – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. |
| Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru egluro pam na fydd cyd-ysgrifenyddiaeth yn cael ei sefydlu ar gyfer Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU na Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad. Dylent hefyd nodi a ydynt yn bwriadu dynodi unrhyw ysgrifenyddiaeth ategol ar gyfer y naill grŵp neu'r llall. | Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru esbonio'r sail resymegol dros benderfyniad sydd eisoes wedi'i wneud, a sut y maent yn bwriadu defnyddio'r strwythurau yn y fframwaith cyffredin – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. |
| Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth am weithgarwch rhyngwladol sy'n rhan o gwmpas y fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd yn cael ei chynnwys yn ei hadroddiadau rheolaidd i'r Senedd ar weithrediad y fframweithiau cyffredin. Dylai hyn gynnwys: Gweithgarwch diweddar gan Lywodraeth Cymru neu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Manylion am y safbwyntiau cyffredin y cytunwyd arnynt â phartïon eraill sy'n rhan o'r fframwaith at ddibenion ymgysylltu rhyngwladol. Gwybodaeth am ddatblygiadau neu | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â gwybodaeth sydd i'w chynnwys gan Lywodraeth Cymru yn ei hadroddiadau y bydd yn eu rhoi i'r Senedd yn unochrog – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. |

| Argymhelliad | Nodiadau |
|---|---|
| rwymedigaethau rhyngwladol arfaethedig a fyddai o fewn cwmpas y fframwaith. | |
| Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru egluro sut y gwnaethant gymryd rhan yn y broses o ddatblygu a chytuno ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Rheoli Clefydau, a sut y bydd Cymru yn ymgysylltu â'r Ganolfan drwy'r fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd. | Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru esbonio eu rôl mewn proses sydd eisoes wedi digwydd, a sut y bydd Cymru yn benodol yn ymgysylltu â'r Ganolfan yn drwy'r fframwaith – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. |
| Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a sicrhawyd mynediad y DU at System Rhybuddio ac Ymateb Brys yr UE. Os na sicrhawyd mynediad, dylai gadarnhau a ofynnir am fynediad drwy'r fframwaith cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd. | Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau mater ffeithiol. |
| Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i hysbysu'r Senedd, gan gynnwys y pwyllgorau perthnasol, am unrhyw gynigion i ddiwygio neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rhan o gwmpas y fframweithiau ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed neu Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) a fyddai'n effeithio ar Gymru neu gleifion yng Nghymru. | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag ymrwymiad unochrog gan Lywodraeth Cymru i hysbysu pwyllgorau'r Senedd – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. |
| Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru esbonio effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar symud gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd, gan gynnwys unrhyw risgiau i effaith ymarferol deddfwriaeth a pholisïau Cymru, ac a yw'n ystyried gofyn am unrhyw eithriadau i'r Ddeddf. | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â dehongliad Llywodraeth Cymru o effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, ac a yw'n ystyried gofyn am eithriadau – nid yw hyn yn destun negodiadau rhynglywodraethol na gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill. |
| Argymhelliad 23: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn asesu'r risgiau a'r manteision i Gymru o gyd-fynd â'r newidiadau a wneir yng Ngogledd Iwerddon a'r UE, yn hytrach na chynnal y sefyllfa bresennol ym Mhrydain Fawr, a beth fydd ei safbwynt mewn trafodaethau rhynglywodraethol ar y materion hyn. | Nid yw dull Llywodraeth Cymru o nodi a rheoli risgiau i Gymru yn destun gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill y DU. |

## Ymateb dros dro

**2.** Rydym yn cytuno ei bod yn rhesymol i'r argymhellion a ganlyn fod yn destun ymateb dros dro ar hyn o bryd, ar y sail eu bod yn ymwneud â materion sy'n destun negodiadau rhynglywodraethol parhaus a gwaith craffu gan ddeddfwrfeydd eraill yn y DU.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau y bydd y fframweithiau ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) yn cynnal, o leiaf, yr hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer addasu polisïau yn ôl anghenion penodol pob tiriogaeth â rheolau presennol yr UE.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol na fydd y fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed, ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) yn arwain at wanhau'r trefniadau o ran ymgynghori â'r cyhoedd a gwaith craffu seneddol wrth lunio polisïau neu'r broses ddeddfwriaethol.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau na fydd y fframweithiau cyffredin hyn yn cyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth lunio deddfau a pholisïau i Gymru. Dylai hyn gynnwys sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso gwaith pwyllgorau neu Aelodau o'r Senedd wrth iddynt ymgysylltu â'r fframweithiau cyffredin os bydd angen, er mwyn sicrhau nad yw'r fframweithiau yn rhwystr i weithredu gweithdrefnau deddfwriaethol y Senedd.

Argymhelliad 5: Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddeddfwrfeydd am weithrediad parhaus y fframweithiau ar ôl i bob adolygiad ddod i ben.

Os na chaiff yr ymrwymiad hwn ei gynnwys yn y fframweithiau, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd adroddiadau ar y cyd ar y fframweithiau yn cael eu cyhoeddi serch hynny yn unol â'r disgwyliadau a nodwyd.

Os na ellir sicrhau cytundeb rhynglywodraethol ar y pwynt hwn, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhesymau pam na fydd adroddiadau rhynglywodraethol yn cael eu cyhoeddi, a chadarnhau y bydd, serch hynny, yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol unochrog yn unol â'i hymrwymiad blaenorol.

Argymhelliad 6: Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys:

- Darpariaeth y dylai'r adolygiad cyntaf o bob fframwaith gynnwys proses ymgynghori agored â rhanddeiliaid.
- Ymrwymiad i ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid.

| |
|---|
| Os na sicrheir y naill ganlyniad na'r llall, dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r rhesymau pam, ac amlinellu'r hyn a wneir yn lle hynny i sicrhau yr eir ati i ymgysylltu mewn modd parhaus, agored ac ystyrlon â rhanddeiliaid ar draws y DU. |
| **Argymhelliad 10:** Cyn i'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) gael eu cwblhau, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y byddant yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r broses newydd o ddatrys anghydfodau rhyngweinidogol a nodir yn yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. |
| **Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol y dylai Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU gyhoeddi ei raglen waith a rennir a rhoi diweddariadau rheolaidd arni. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi adroddiadau ar ei gyfarfodydd. |
| **Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod y rhaglenni gwaith a gyhoeddir gan Bwyllgor Diogelu Iechyd y DU a'r Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd yn cynnwys manylion pa gyrff a fydd yn gyfrifol am gyflawni pa weithgareddau, ac o ble y daw'r adnoddau ar gyfer gweithgareddau o'r fath. |
| **Argymhelliad 18:** Pan fydd unrhyw gynnig i ddiwygio neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n rhan o gwmpas y fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed neu Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau), dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y caiff ei gyflawni drwy'r fframweithiau cyffredin, nid drwy broses ar wahân. |
| **Argymhelliad 21:** Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gyfeirio at y rhyngberthynas â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, a chydnabod y broses ar gyfer cytuno ar eithriadau i'r Ddeddf honno. |
| **Argymhelliad 22:** Yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys manylion ychwanegol ynghylch pryd y bydd newidiadau a gyflwynir yng Ngogledd Iwerddon drwy'r Protocol ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn y fframweithiau hyn. |
| **Argymhelliad 24:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru'r fframweithiau cyffredin ar Ddiogelwch ac Ansawdd Gwaed ac Organau, Meinweoedd a Chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau) i gynnwys manylion am sut y bydd llywodraethau yn y DU yn gweithio gyda'i gilydd ar rwymedigaethau rhyngwladol a rhwymedigaethau'r DU a'r UE sy'n ymwneud â gwaed, organau, meinweoedd a chelloedd. Dylai hyn gynnwys sut y caiff Cymru ei chynrychioli mewn trafodaethau perthnasol yn Sefydliad Iechyd y Byd ac yn fforymau'r DU a'r UE. |